

Safonau'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol

1 Awst 2018 - 31 Gorffennaf 2019



Mae fersiwn Gymraeg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Brifysgol ac mae copïau caled Cymraeg a Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen	3
Safonau'r Gymraeg	Tudalen	3
Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Tudalen	4
Gweithredu Safonau'r Gymraeg	Tudalen	5
Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg	Tudalen	7
Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg	Tudalen	8
Darpariaeth Hyfforddiant Iaith Gymraeg	Tudalen	8
Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn bwrpasol	Tudalen	9
Nifer yr ymwelwyr ar y tudalennau gwe Cymraeg	Tudalen	10
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg	Tudalen	10
Hyfforddiant a chyrсияu trwy gyfrwng y Gymraeg	Tudalen	11
Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg	Tudalen	11

Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol o Safonau'r Gymraeg yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd y Safonau, nid yn unig fel gofyniad statudol, ond fel modd o gefnogi a galluogi defnydd y Gymraeg yng ngwaith y Brifysgol. Mae sicrhau cydymffurfiaeth yn heriol i'r Brifysgol ar sawl lefel ac mae cynnydd wedi ei wneud hyd yn hyn sydd wedi ei gydnabod drwy aelodau o staff yn arddangos lefel fanylach o ddealltwriaeth ac adborth cadarnhaol gan aelodau'r gymuned Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg

Dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys annog hyrwyddo'r iaith Gymraeg a gofyn bod darpariaeth Gymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio ar 29 Medi 2017 i'r Brifysgol yn cynnwys 178 safon unigol y mae gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw dan y themâu canlynol; darparu gwasanaethau, gweithdrefnol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae'r Safonau yn manylu ar ein cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eu nod yw:

- egluro'n glir wrth y Brifysgol beth yw ei dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg,
- egluro'n gliriach i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pa wasanaethau gallant ddisgwyl eu derbyn trwy'r Gymraeg gan y Brifysgol.
- cysoni a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth sefydliad gyda Safonau'r Gymraeg, ac archwilio cwynion ac achosion o beidio â chydymffurfio. Mae gan y Comisiynydd yr hawl i bennu camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae gan y Brifysgol dudalen Polisi Iaith Gymraeg dynodedig ar ei gwefan, a ddangosir ar y sgrinlun isod. Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno Safonau'r Gymraeg a Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol. Yma, byddwch hefyd yn dysgu mwy am y gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gennym, y gwasanaethau gall myfyrwyr eu disgwyl gennym, dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (fel gofal bugeiliol, asesiadau, cyfathrebu a llety). Ar y dudalen hon hefyd mae ein Polisi Iaith Gymraeg, Canllawiau Cwynion, Adroddiadau Blynyddol a gwybodaeth gyswilt.



The screenshot shows the website for Prifysgol Glyndwr Wrexham. At the top, there are logos for 'PRIFYSGOL Glyndwr Wrexham' and 'Wrexham Glyndwr UNIVERSITY', along with a 10th anniversary logo. A search bar and navigation links for 'Accessibility | English | Cymraeg' are visible. Below the navigation bar, there are tabs for 'STUDY WITH US', 'STUDENT LIFE', 'INTERNATIONAL', 'BUSINESS SERVICES', 'COMMUNITY', 'RESEARCH', and 'ABOUT US'. The main content area has a breadcrumb trail: 'You are here: Home > About Glyndwr University > Policies and Documents > Welsh Language Policy'. A sidebar on the left lists various university services. The main content area features a large image of a building with the text 'WELSH LANGUAGE POLICY' overlaid. Below the image, there is a paragraph of text explaining the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

<https://www.glyndwr.ac.uk/cy/YnglynaPhrifysgolGlyndwr/PolisiauaDogfennau/PolisirGymraeg/>

Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Fel corff cyhoeddus, mae gofyn i'r Brifysgol fod yn hunanreoleiddiol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys monitro ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn cynnig digon o gyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth weithio, astudio neu ymweld â ni.

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r safonau yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan allanol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn. Mae cynnwys yr adroddiad fel a ganlyn:

- Y ffordd mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â gwahanol ddsbarthiadau o safonau
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw - Safon 158
- Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) y gweithwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu trwy'r Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (yn benodol recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau disgyblu a chwynion; cynefino; delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 159
- Nifer y swyddi gwag a newydd sydd wedi eu categoreiddio fel rhai y mae Sgiliau Iaith Gymraeg yn hanfodol, dymunol, ddim yn berthnasol ar eu cyfer neu angen eu dysgu - Safon 162
- Nifer y cwynion mae'r Brifysgol wedi eu derbyn ynghylch pob dosbarth o'r safonau - Safon 166

Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfiaeth y Brifysgol â safonau'r Gymraeg.

Sefydlodd y Dirprwy Is-ganghellor Bwyllgor Monitro Iaith Gymraeg ym mis Awst 2018 (yn dilyn terfynu'r Grŵp Monitro Iaith Gymraeg anffurfiol blaenorol). Mae'r pwyllgor yn

cynnwys aelodau o'r uwch dîm rheoli a staff gweithredol ar lefel briodol, ac mae'n bwyllgor ymgynghorol nad oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau ac yn is-bwyllgor i Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bedair gwaith ers ei sefydlu ac wrth symud ymlaen, bydd yn cyfarfod bedair gwaith bob blwyddyn Academaidd yn ôl ei Gylch Gorchwyl.

Rôl a swyddogaeth y pwyllgor hwn yw cefnogi a hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ledled y Brifysgol fel y manylir isod:

1. **Polisiau a Gweithdrefnau** - Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau perthnasol yn cael eu sefydlu er mwyn cydymffurfio â'r holl deddfwriaethau perthnasol, wrth fonitro'r gweithredu a sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
2. **Rheoli Risg** - Goruchwyllo'r gwaith o weithredu strategaethau/polisiau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn deddfwriaeth o'r fath. Sicrhau bod y Brifysgol yn cadw cofnodion ac yn adrodd yn briodol ac yn brydlon yn ôl y gofyn yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol.
3. **Arfer** - Hyrwyddo a magu diwylliant o wella ansawdd a rhannu arfer da mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg; sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd uchel ar gael wrth ddarparu gwasanaeth ynghyd ag unrhyw arweiniad a chefnogaeth, a helpu i roi eglurder ynghylch dehongli Safonau perthnasol a sut y gall arferion y Brifysgol gydymffurfio.
4. **Cyfathrebiadau a datblygiad staff** - Datblygu a goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r rhaglen gyfathrebu a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol, a gydag eraill fel sy'n briodol, ynglŷn â phob agwedd o'r Iaith Gymraeg, cynnig cyngor

priodol mewn ymateb i ddigwyddiadau ac achosion a chefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau ac ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

5. **Cwynion** - Derbyn adroddiadau, a gwneud argymhellion ar gamau gweithredu, dilyn trywydd unrhyw gwynion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Safonau'r Gymraeg) a lle bo'n briodol, ymgymryd â champau gweithredu adferol neu eu hargymell, a monitro'r camau hyn a gymerwyd.

Mae'r Brifysgol yn cyflogi Swyddog Cangen Coleg Cymraeg, a rhan o rôl y swyddog yw gweithio â myfyrwyr yn hyrwyddo eu hawliau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg

Mae gan y Brifysgol swydd sydd wedi ei neilltuo i gefnogi cyfathrebiadau corfforaethol dwyieithog, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi cydweithwyr, lle bo'n bosibl, pan fo angen darnau bach o waith cyfieithu. Ar gyfer darnau mwy o waith neu gyfieithiadau brys, mae'r gwaith yn cael ei anfon yn allanol gyda chyfrifoldeb wedi ei ddatganoli i ganolfannau cyllideb. Mae effeithiolrwydd cyfieithu'r Brifysgol yn parhau i gael ei adolygu drwy'r Pwyllgor Monitro Iaith Gymraeg.

Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg

Nifer y swyddi gwag a newydd a oedd wedi eu hysbysebu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, wedi eu categorio yn unol â'r gofynion mewn perthynas â sgiliau iaith Gymraeg:

Meini Prawf	Nifer
Cymraeg yn Hanfodol	3
Cymraeg yn Ddymunol	128
Dim angen y Gymraeg	0

Darpariaeth Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Mae'r Brifysgol wedi cynnig cyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg, ac yn wir wedi eu hannog i wneud hynny. Cafodd hyn ei ddarparu ar lefelau gwahanol yn ddibynnol ar allu ac angen staff. Cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu gan yr Hyrwyddwr Iaith Gymraeg a'i wneud ar y cyd â'r Coleg Gymraeg gyda 65 yn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn. Cafodd y cyrsiau hyn eu darparu am ddim ac yn ystod oriau gwaith.

Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant unigryw ar gyfer staff derbynfa mewn gofynion iaith penodol ac i gefnogi'r gwaith ar gyfer meysydd eraill y Safonau lle mae angen sicrhau darpariaeth ddwyieithog ar dderbynfa.

Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn bwrpasol

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo diwylliant Gymraeg yn fewnol gan ddefnyddio'r fewnrwyd, porth newyddion mewnol a chynefino gweithwyr.

Cynhadledd Staff mis Ebrill 2019

Wedi cynnal sesiwn rhyngweithiol a oedd yn symleiddio'r cymhlethdod. *Roedd y sesiwn wedi gwella dealltwriaeth a chynnig eglurder mewn perthynas â safonau'r Gymraeg (teitl y sesiwn oedd Understanding Stranded Shawls, sy'n anagram o Welsh language standards).* Roedd mynychwyr yn medru dysgu am awgrymiadau hawdd ar gyfer arfer da, cael eu harwain at yr help sydd ar gael gydag amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae yn y cefndir.

Parêd Dydd Gŵyl Dewi 2019, Wrecsam

I ddathlu Nawddsant Cymru, bu cynrychiolwyr o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam; a oedd yn cynnwys ein His-ganghellor a Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn gorymdeithio gydag aelodau o'r gymuned leol fel rhan o'r parêd Dydd Gŵyl Dewi blynyddol.

Cafodd blog ei ysgrifennu hefyd yn egluro 'Beth sy'n Mynd Ymlaen a Pham Ydym yn Dathlu?' heddiw. Dyma ddolen at y blog: <https://www.glyndwr.ac.uk/en/blog/posts/StDavidsDay/>

Cadwch lygad allan yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf gan fod pethau cyffrous i'w hadrodd!

Nifer yr ymwelwyr ar y tudalennau gwe Cymraeg

Mae'r Brifysgol wedi derbyn amrywiaeth o adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch safon y tudalennau gwe, mae'r tabl isod yn dangos ymwelwyr y dudalen we yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Y tudalennau mwyaf poblogaidd oedd y rhai a oedd yn cynnwys gwybodaeth myfyrwyr fel cyrsiau a diwrnodau agored.

	Gwefan Gymraeg	Gwefan Saesneg
Ymweliadau unigol	8,582	1,103,631
Amser cyfartalog ar dudalen	1 munud 48 eiliad	1 munud 18 eiliad

Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cofnodi lefelau gweithwyr yn ystod y broses gynefino. Mae gofyn i weithwyr ddewis eu lefel, o 0-8, o allu siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Mae arolwg hefyd yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu diweddarau.

Hyfforddiant a chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ar gais, fodd bynnag, hyd yn hyn, nid oes cais am hyfforddiant yn Gymraeg wedi ei wneud. Ar hyn o bryd, oherwydd adnoddau, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg yn awtomatig, fodd bynnag, pe bai gweithiwr yn gwneud cais am hyn, byddai fersiwn Gymraeg o'r hyfforddiant ar gael pe bai'n un o'r meysydd cydymffurfiaeth statudol. Mae sesiwn ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y broses o gynefino gweithwyr. Pe bai gweithiwr newydd yn gwneud cais i wneud y broses gynefino yn Gymraeg, bydda'r adran Adnoddau Dynol yn medru darparu hynny.

Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg dair cwyn yn uniongyrchol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, a phob un mewn perthynas â safonau darpariaeth gwasanaethau.

Cafodd un gwyn ffurfiol a oedd yn ymwneud â safon darparu gwasanaeth ei gwneud yn uniongyrchol i'r Brifysgol a'i datrys.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol ac mae copi caled ar gael mewn swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.

Dylid anfon unrhyw sylwadau neu ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn i:

cydymffurfiocymraeg@glyndwr.ac.uk